



# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bro Morgannwg

Cyhoeddwyd: Mai 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 251A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry, Janet Villars, Helen Keatley a Grant Thornton, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth, ond mae angen iddo adrodd yn fwy eglur ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni 7

Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn yr holl feysydd blaenoriaeth a nodwyd fel amcanion gwella ar gyfer 2011-12 7

Mae trefniadau gwerthuso ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn gwella, ond nid ydynt eto yn rhoi esboniad cyflawn a hygyrch o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni 16

Mae gwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau yn gadarn 19

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 21

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am ardal Bro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg 22

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 24

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bro Morgannwg 27

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad cyffredinol canlynol: mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth, ond mae angen iddo adrodd yn fwy eglur ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni.

3 Nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn yr holl feysydd blaenoriaeth a nodwyd fel amcanion gwella ar gyfer 2011-12. Nodir y canlynol yn benodol:

- Yn gyffredinol, mae'r trefniadau rheolaeth gorfforaethol yn gadarn.
- Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran moderneiddio'i wasanaethau plant a gwella cyfleoedd drwy gydweithredu â phartneriaid allweddol.
- Mae'r Cyngor wedi gosod amcan iddo'i hun o 'gydweithio â phartneriaid er mwyn i blant a phobl ifanc gael gwybodaeth a chymorth i allu manteisio ar wasanaethau amrywiol o safon, a gwneud y gorau o bob cyfle mewn bywyd y tu fewn a'r tu allan i'w cymunedau'.
- Mae gwasanaethau i'r henoed a phobl agored i niwed wedi gwella, er bod heriau allweddol yn parhau.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid er mwyn cyflwyno trefniadau a chyfleusterau yn y gymuned i gefnogi pobl y tybir eu bod mewn perygl o niwed.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni rhai o'i amcanion gwella i wella'r amgylchedd, iechyd a hylendid, ond mae'n wynebu heriau o ran adfywio'r economi leol.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni arbedion, gwella ei systemau Adnoddau Dynol a rheoli asedau; fodd bynnag, mae rhai gwendidau yn ei weithrediadau technoleg gwybodaeth.

4 Yn ogystal, canfuwyd bod trefniadau gwerthuso ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn gwella, ond nid ydynt eto yn rhoi esboniad cyflawn a hygyrch o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni:

- Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso'i berfformiad yn gwella, ond mae ansawdd y canlyniadau adrodd yn anghyson.
- Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei adroddiadau yn hygyrch i'r cyhoedd, ac yn bodloni gofynion y *Cynllun Iaith Gymraeg.*

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cygor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad fod gwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau yn gadarn:

- mae'r Cyngor yn datblygu dull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn cefnogi'r gwelliannau y mae'n bwriadu eu gwneud;
- mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol eglur a chadarn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth, ond mae angen iddo adrodd yn fwy eglur ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni

### Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn yr holl feysydd blaenoriaeth a nodwyd fel amcanion gwella ar gyfer 2011-12

10 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn 2011-12 erbyn 31 Hydref 2012. Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswydd drwy gyhoeddi ei *Gynllun Gwella 2012/13* (y Cynllun) mewn pryd. Roedd y Cynllun yn cynnwys gwybodaeth am ei berfformiad cyffredinol o ran ei amcanion gwella ar gyfer y cyfnod 2011-12. Roedd ar gael i'r cyhoedd ar ffurf copïau papur, a oedd ar gael yn adeiladau'r Cyngor megis llyfrgelloedd, ac ar ei wefan.

11 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu'r Cynllun a rhoi barn ynghylch a oedd y cynnwys a'r trefniadau cyhoeddi yn bodloni holl ofynion y Mesur ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Adroddwyd yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* dyddiedig 14 Ionawr 2013 y gallai'r Cyngor wella cynnwys ac argaeledd y Cynllun a'i gwneud yn eglur a oedd gwelliant wedi ei gyflawni, a sut, drwy wneud y canlynol:

- disgrifio ac esbonio'n fanylach sut y mae'n mesur, yn monitro ac yn gwerthuso ei berfformiad a pha ganlyniadau sydd wedi eu cyflawni;
- cynnwys cymariaethau gyda pherfformiad awdurdodau eraill;
- dangos sut y mae ei bartneriaethau a'i brosiectau cydweithredol wedi cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion gwella;
- sicrhau bod y Cynllun ar gael a'i gwneud yn haws dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor.

12 Er mwyn rhoi ffocws ar gyfer ei weithgarwch gwella, pennodd y Cyngor saith blaenoriaeth strategol allweddol:

- Arweiniad Cymunedol
- Plant a Phobl Ifanc
- Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Diogelwch Cymunedol
- Adfywio
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Adnoddau Corfforaethol

13 Cyflawnodd y Cyngor ystod o welliannau yn ystod 2011-12, megis moderneiddio ei wasanaethau plant, a gwella ansawdd ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu ar yr un pryd â lleihau'r costau. Chwiliodd hefyd am gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd gyda chynghorau cyfagos a'i sefydliadau partner yn y bwrdd gwasanaethau lleol. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried pob un o flaenoriaethau strategol y Cyngor yn eu tro.

## Yn gyffredinol mae'r trefniadau rheolaeth gorfforaethol yn gadarn

14 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyngor yn crynhoi ac yn gwerthuso ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys polisïau, monitro perfformiad a gallu i hunanherio. Yn gyffredinol, mae'r prosesau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i weithredu canllawiau llywodraethu CIPFA/SOLACE yn gadarn, gyda Phennaeth yr Adran Archwilio Mewnol yn casglu'r holl waith a ddefnyddir i lywio'r materion llywodraethu arwyddocaol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

15 Mae proses Archwilio Mewnol y Cyngor wedi nodi gwendidau yn y modd y mae'n rheoli ei bartneriaethau a'i waith comisiynu. Er enghraifft, cyfyngedig oedd y wybodaeth am nifer a math y prosiectau cydweithredol sy'n bodoli. Ymhellach, nid oedd y gwaith o sefydlu a rheoli trefniadau llywodraethu partneriaeth yn cael ei gydgysylltu'n ganolog.

16 Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi argymell y dylid llunio cofrestr ganolog a datblygu canllawiau corfforaethol. Cwblhawyd y ddwy eitem ac fe'u cyflwynwyd i'r Cabinet ar 21 Ionawr 2013; rhoddwyd y canllawiau, sy'n dwyn y teitl *Collaborative Working: Guidance for Managers*, ar fewnrwyd y Cyngor yn ddiweddar, ac mae'n ffynhonnell o gyngor ar gyfer trefniadau rheolaeth gorfforaethol wrth sefydlu partneriaethau a phrosiectau cydweithredol.

17 Mae'r Cyngor yn parhau i gynyddu nifer y partneriaethau sydd ganddo er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau ac annog arbedion ariannol. Mae'n adrodd ar ei weithgareddau cydweithredu yn ystod y flwyddyn, er nad yw eto yn gwerthuso'r trefniadau cydweithredu yn llawn ac yn egluro a ydynt wedi cyflawni eu diben a'r canlyniadau a fwriadwyd.

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran moderneiddio'i wasanaethau plant a gwella cyfleoedd drwy gydweithredu â phartneriaid allweddol

18 Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2011-2012*[1] (Adolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) ac adroddodd fod y Cyngor wedi gwella mewn sawl maes gwasanaeth. Mae ei berfformiad wedi parhau i wella ym maes gwasanaethau plant, yn enwedig o ran diogelu plant.

19 Dangosodd yr arolygiad o wasanaethau mabwysiadu'r Cyngor ym mis Mawrth 2011 fod sawl maes yr oedd angen ei wella, gan gynnwys cynnal rheolaeth gadarn a sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael. Er iddynt nodi bod y gwasanaethau maethu yn cydymffurfio ac yn gweithredu'n dda ar y cyfan, roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn credu ar y pryd bod angen penodi rheolwr gwasanaethau maethu. Mae hyn wedi'i gyflawni bellach, a gwneir mwy o ymdrech i gyhoeddi gwybodaeth a recriwtio gofalwyr maethu.

1 Mae adolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'w weld yn www.cssiw.wales.gov.uk

20 Adroddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gadarnhaol fod amrywiaeth o lwybrau mynediad i waith cymdeithasol a gwasanaethau cymorth uniongyrchol, a bod tystiolaeth sy'n awgrymu eu bod yn effeithiol. Cafodd gwybodaeth ynghylch ystod y dewisiadau ar gyfer cysylltu â'r gwasanaethau ei hyrwyddo drwy ddosbarthu deunydd cyhoeddusrwydd drwy ystod o bwyntiau cyswllt cymunedol a phwyntiau cyswllt ym maes iechyd. Datblygodd y Cyngor alluoedd ar-lein ei wefan, a'u hymestyn, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf.

21 Er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag Awtistiaeth, datblygodd y Cyngor becyn hyfforddi dysgu ar-lein ar gyfer staff. Mae'r pecyn, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, wedi ennill gwobr genedlaethol ac wedi ei fabwysiadu gan sawl cyngor arall yng Nghymru.

22 O ran gwaith cydweithredol, adroddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod panel aml-asiantaeth ar achosion cymhleth wedi'i sefydlu gyda'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaeth addysg y Cyngor. Mae'r panel yn ystyried posibiliadau o ran trefniadau cynllunio ac ariannu ar y cyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chanddynt ymddygiad heriol ac anghenion cymhleth. Yn ogystal, comisiynodd y Cyngor wasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n rhan o brosesau amddiffyn plant. Ar sail adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, mae'r Cyngor yn hyderus ei fod yn effeithiol.

23 Fodd bynnag, roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'r farn bod y gwasanaethau plant yn wynebu risgiau cynyddol mewn rhai meysydd. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith bod yn rhaid i'r gwasanaeth ymdopi â phwysau ariannol parhaus mewn sefyllfa pan oedd y Cyngor yn gofalu am nifer gynyddol o blant.

**Mae'r Cyngor wedi gosod amcan iddo'i hun o 'gydweithio â phartneriaid er mwyn i blant a phobl ifanc gael gwybodaeth a chymorth i allu manteisio ar wasanaethau amrywiol o safon, a gwneud y gorau o bob cyfle mewn bywyd y tu fewn a'r tu allan i'w cymunedau'**

24 Yn ei Gynllun adroddodd y Cyngor ar ei gynnydd o ran cyflawni'r amcan uchod yn ystod 2011-12.

25 Yn dilyn arolygiad ym mis Mai, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad ym mis Medi 2013 a fydd yn rhoi adolygiad annibynnol o wasanaethau addysg y Cyngor.

26 Rydym hefyd yn adolygu'r gwaith o sefydlu'r Cyd-wasanaeth Addysg sy'n cynnwys y Cyngor ac awdurdodau cyfagos – Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Diben y Cyd-wasanaeth Addysg yw darparu cymorth i ysgolion a gwasanaethau a fasnachir ar sail gydweithredol, er mwyn lleihau costau ac ymateb i ddymuniad Llywodraeth Cymru i weld gwasanaethau'n cael eu darparu ar lefel ranbarthol. Byddwn yn adrodd ar ganlyniad ein hadolygiad yn ddiweddarach eleni, ac yn ymgorffori canfyddiadau manwl yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

## Mae gwasanaethau i'r henoed a phobl agored i niwed wedi gwella, er bod heriau allweddol yn parhau

27 Yn Adolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o wasanaethau'r Cyngor disgrifir gwelliant a newid cadarnhaol mewn gwasanaethau oedolion. Mae cynllun newid y Cyngor yn cynnwys ffocws ar integreiddio gwasanaethau gan gynnwys comisiynu ar y cyd er mwyn gwella gwasanaethau a lleihau costau.

28 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol gyda rhagamcan o orwariant. Bydd ei raglen i gefnogi ac annog annibyniaeth ac i fynd i'r afael â lleoliadau cost uchel yn ganolog i'r gwaith o fynd i'r afael â phwysau cyllidebol.

29 Mae'r Cyngor hefyd wedi ailstrwythuro ac wedi lleihau nifer y swyddi rheoli, ac mae'n cydweithredu â Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae nifer y swyddi gwag wedi effeithio ar allu'r Cyngor i wneud cynnydd er bod llawer o swyddi bellach wedi eu llenwi neu bod recriwtio iddynt yn digwydd ar hyn o bryd.

30 Yn Adolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru nodir bod gan y Cyngor, yng nghyd-destun gwasanaethau oedolion, gryfderau sylweddol o ran hyrwyddo mynediad i wasanaethau, ac yn benodol mynediad i gymorth cymunedol. Gwnaethpwyd gwaith hefyd er mwyn gwella cynllunio gofal ar gyfer pobl ifanc 'gan wneud y trosglwyddiad o'r gwasanaethau i blant i'r gwasanaethau i oedolion yn fwy di-dor'. Yn ogystal, cryfhaodd y Cyngor ei brosesau o ran diogelu oedolion, ac maent yn effeithiol.

31 Cyfeiria Adolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru at gynllun newid y Cyngor, gan gynnwys cynigion i ddatblygu modelau gofal sy'n cynnal annibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth, gan leoli pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Gwnaethpwyd cynnydd da o ran moderneiddio gwasanaethau oedolion ac o ran bwrw ymlaen â gwaith cydweithredol gyda Chyngor Caerdydd. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r model gwasanaeth sy'n annog annibyniaeth, mae treial cychwynnol ar ddefnyddio technoleg Teleofal wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau'n ehangach, gan alluogi pobl gydag ystod o anableddau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

32 Gwnaethpwyd cynnydd o ran gwella amseroldeb penderfyniadau ar atgyfeiriadau cychwynnol a lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau asesiadau arbenigol mewn gwasanaethau oedolion. Mae'r amser cyfartalog rhwng atgyfeirio a derbyn gwasanaeth wedi lleihau o 99 diwrnod i tua 40 diwrnod, ac mae'n dal i leihau. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau asesiadau anarbenigol wedi cynyddu, ond bernir bod y cyfnod aros yn dal i fod o fewn terfynau derbyniol.

33 Roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cymeradwyo defnydd y Cyngor o swyddi wedi'u rhannu a swyddi wedi'u hariannu ar y cyd er mwyn gwneud arbedion a sicrhau ei fod yn gallu manteisio ar arbenigedd mewn meysydd arbenigol penodol. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad hefyd o'r farn bod y Cyngor yn wynebu risg gynyddol o ran 'cadernid y gweithlu yn y tymor hirach' a phroblemau 'recriwtio a chadw staff yn wyneb llwythi achosion cynyddol fawr'.

34 Yn 2011, adolygwyd y gwasanaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gwnaethom nifer o gynigion ar gyfer ei wella. Yn ystod 2012, aseswyd camau gweithredu'r Cyngor o ran ymateb i'n cynigion, a nodwyd ei fod wedi cyflawni gwelliant sylweddol. Lleihaodd y Cyngor yr amser aros cyfartalog o ran darparu grant cyfleusterau i'r anabl o 569 diwrnod yn 2010-11 i 399 diwrnod yn 2011-12, gan wella o safle 22 o gymharu perfformiad â chynghorau eraill Cymru, i safle 17. Canfuwyd bod y Cyngor hefyd wedi diwygio ei weithdrefnau caffael a gosod cyfleusterau i'r anabl, ac wedi cyflwyno dull mwy cadarn o reoli a monitro ei berfformiad. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod rhaid gwneud rhagor er mwyn lleihau amseroedd aros ymhellach ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

## Mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid er mwyn cyflwyno trefniadau a chyfleusterau yn y gymuned i gefnogi pobl y tybir eu bod mewn perygl o niwed

35 Ar y cyd ag Atal y Fro[2], mae'r Cyngor wedi gwella'r gwasanaethau a'r cyfleusterau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol, yn ogystal ag eiriolaeth a chymorth, ymddengys fod gweithgareddau'r bartneriaeth wedi cael effaith sylweddol ar aildroseddu, sydd wedi lleihau o 14.41 y cant yn 2010-11 i 7.1 y cant yn 2011-12; enghraifft dda o ganlyniadau cadarnhaol i deuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig.

36 Gyda datblygiad y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r model 'tîm o amgylch y teulu', mae'r Cyngor wedi cyflwyno dull aml-asiantaeth mwy cyfannol o gynnig gwasanaethau cymorth, sydd wedi eu teilwra i anghenion unigol plant agored i niwed a'u teuluoedd. Y nod yw gwella eu cyfleoedd mewn bywyd a lleihau'r posibilrwydd y bydd y plant hyn yn aildroseddu. Mae mesurau perfformiad presennol yn dangos bod y Cyngor a'i bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau aildroseddu ymysg pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol; enghraifft arall o faes lle mae dull cydweithredol y Cyngor yn helpu i sicrhau manteision cadarnhaol i grwpiau o gleientiaid.

2 Grŵp Cymorth i Ferched Bro Morgannwg gynt; mae Atal y Fro yn fudiad sy'n ymroddedig i dorri cylch cam-drin domestig.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni rhai o'i amcanion gwella i wella'r amgylchedd, iechyd a hylendid, ond mae'n wynebu heriau o ran adfywio'r economi leol

37 Mae pwyslais y Cyngor ar adfywio yn cynnwys ystod eang o weithgareddau, o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, sefydlu llwybrau troed a llwybrau diogel i ysgolion, i leihau allyriadau cerbydau a sefydlu strategaeth arfordirol. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y gall y gweithgareddau a'r mesurau sy'n rhan o'r amcan hwn ddylanwadu'n sylweddol ar dwf economaidd ac adfywio, a beth yw'r canlyniadau disgwyliedig.

38 Mae Cynllun y Cyngor yn dangos cynnydd o ran gwella casglu sbwriel er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd lleol. Dengys y Cynllun berfformiad cyson; roedd 100 y cant o'r sbwriel a oedd yn cael ei dipio'n anghyfreithlon wedi ei glirio o fewn pum diwrnod gwaith. Agorodd y Cyngor ganolfan ailgylchu newydd ym mis Medi 2011. Gwelwyd gwelliant o ran faint o sbwriel sy'n cael ei ailgylchu, o 40.48 y cant yn 2010-11 i 49.57 y cant yn 2011-12, sydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 48.53 y cant.

39 Er mwyn diogelu'r cyhoedd, mae'r Cyngor yn adrodd fod ei gyfradd ymweliadau â safleoedd risg uchel er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau masnach, iechyd a diogelwch, a hylendid bwyd wedi cyrraedd 100 y cant.

40 Mae'r canlyniadau a adroddwyd am weithgareddau'r Cyngor i gefnogi a gwella'r economi leol yn dangos cynnydd anwastad:

- Bu oedi gyda'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol, oherwydd cyn yr etholiadau ym mis Mai 2012, ymrwymodd y weinyddiaeth newydd i adolygu'r Cynllun cyn ei fabwysiadu.
- Mae nifer yr unedau o dai fforddiadwy newydd a ddarparwyd fel canran o'r holl dai newydd yn is na'r flwyddyn flaenorol, lleihad o 56 y cant yn 2010-11 i 23 y cant yn 2011-12, er nad yw darparu tai fforddiadwy newydd o fewn rheolaeth y Cyngor.
- Mewn ymateb i bryderon bod ffigurau ymwelwyr ag atyniadau a threfi yn gostwng, mae'r Cyngor wedi gwella cyfleusterau canol y dref yn y Barri, Penarth a Llanilltud Fawr. Gwnaeth waith gwella hefyd yng Ngerddi Dyffryn cyn trosglwyddo'r eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar brydles hir.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni arbedion, gwella ei systemau adnoddau dynol a rheoli asedau; fodd bynnag, mae rhai gwendidau yn ei weithrediadau technoleg gwybodaeth

41 Lleihaodd y Cyngor gostau cyflogau ar lefel uwch swyddogion drwy ailstrwythuro ei dîm rheoli ym mis Awst 2012. Yn sgil yr ailstrwythuro lleihawyd maint yr uwch dîm rheoli drwy ddileu swydd y Prif Weithredwr a thair swydd cyfarwyddwr, ac ad-drefnu cyfrifoldebau cyfarwyddwyr eraill. Mae'r tîm rheoli newydd yn cynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr, tri chyfarwyddwr a'r Prif Swyddog Addysg. Ailstrwythurwyd y tîm rheoli gan ystyried yr agenda addysg ranbarthol sy'n datblygu, a mwy o gydweithredu ledled y rhanbarth, yn ogystal â'r ffaith bod angen lleihau costau. Amcangyfrifodd y Cyngor y bydd y trefniadau diwygiedig yn arbed £500,000 y flwyddyn, a dylid cyflawni hynny'n llawn yn 2013-14.

42 Cymeradwywyd y Cynllun Ariannol Tymor Canol gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2011 ac roedd yn dangos diffyg cronnol hyd 2014-15 o £8.3 miliwn. Defnyddiwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canol fel dull o geisio nodi'r prif oblygiadau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, gan amcangyfrif yr adnoddau sydd ar gael, nodi ac arfarnu opsiynau a sefydlu fframwaith ar gyfer cynhyrchu strategaeth ar gyfer y gyllideb, ar yr un pryd â sicrhau bod cyllidebau sylfaenol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor, ei fod yn cyflawni'r gwerth gorau am arian a bod y gyllideb yn gynaliadwy.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd natur dreigl y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn golygu y bydd rhaid ei newid a'i ddatblygu yn arf cyllidebu a blaengynllunio wrth i'r ffactorau y mae'n seiliedig arnynt ddod yn fwy eglur ac yn fwy pendant. Mae'r Cyngor felly'n bwriadu ailedrych ar y tybiaethau a wnaed yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol er mwyn penderfynu a ragfynegir unrhyw newidiadau pellach a allai effeithio ar yr arbedion sy'n ofynnol (a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau o ganlyniad) er mwyn sicrhau cyllideb gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

43 Yn 2011, adolygwyd cynnydd y Cyngor o ran datblygu ei swyddogaeth adnoddau dynol a'i drefniadau cynllunio'r gweithlu. Canfuwyd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd, ond nodwyd tri maes y gallai'r Cyngor eu gwella, sef: cryfhau ei allu i fonitro a chraffu ar berfformiad elfennau allweddol swyddogaethau adnoddau dynol; gwerthuso ansawdd ei drefniadau presennol ac ystyried beth fyddai'r opsiynau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd; ac ystyried sut y gellir cofnodi sgiliau a dysgu er mwyn i'r holl staff allu cael budd ohonynt.

44 Ym mis Rhagfyr 2012, adolygwyd cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r gwelliannau hyn, a chanfuwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd nodedig, yn bennaf drwy gyhoeddi 'cynllun y gweithlu', ddiwedd 2012. Mae hon yn ddogfen allweddol sy'n cefnogi'r gwaith o reoli'r Cyngor, ac mae'n amlinellu:

- y cyd-destun strategol ar gyfer dylunio'r gweithlu;

- y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol;
- cynlluniau recriwtio;
- y dull o ddatblygu arweinyddiaeth;
- effaith gweithio mewn partneriaeth a modelau cyflawni gwahanol;
- cynllun gweithredu i gyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol.

45 Mae cynllun y gweithlu yn cydnabod bod cynllunio olyniaeth yn flaenoriaeth, ac mae wedi datblygu camau gweithredu i sicrhau y bydd gan y Cyngor niferoedd digonol o staff, gyda'r sgiliau cywir, i gyflawni ei amcanion a pharhau i gynnal gwasanaethau.

46 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno dull mwy systematig o fonitro perfformiad swyddogaethau adnoddau dynol, drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol i'r Cabinet ac i bwyllgorau craffu. Mae strwythur y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn y dyfodol yn cael ei ystyried er mwyn datblygu model costeffeithiol, gan gadw nodweddion presennol y gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud er mwyn gwneud y gorau o ddysgu ar y cyd ar gyfer staff.

47 Yn 2011, adolygwyd trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) fel ffordd o gefnogi ymdrechion y Cyngor i gyflawni gwelliannau yn ei wasanaethau. Ein casgliad cyffredinol oedd bod trefniadau TGCh y Cyngor mewn sefyllfa gref i helpu i gyflawni gwelliannau, gan ei fod wedi sefydlu sylfeini technoleg cadarn. Ymhellach, roedd ei drefniadau llywodraethu TGCh eisoes yn helpu i sicrhau defnydd cynaliadwy ac effeithiol o dechnoleg, i gyflawni arbedion ac i weddnewid dulliau o ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, fel y nodwyd yn y Cynllun, roedd systemau mynediad i gwsmeriaid yn gwella yn sgil systemau technoleg gwell yn y ganolfan gyswllt.

48 Fodd bynnag, nodwyd hefyd bum cynnig a fyddai, o'u gweithredu, yn cryfhau ac yn gwella gallu'r Cyngor i sicrhau bod ei strategaeth TGCh yn gydnaws â'i gynllun corfforaethol, a thrwy hynny yn gwella'r defnydd o TGCh er mwyn helpu i gyflawni ei amcanion gwella a chael y canlyniadau disgwyliedig. Ym mis Gorffennaf 2012, adolygwyd cynnydd y Cyngor o ran gweithredu ein cynigion, a chanfuwyd, er bod y Cyngor wedi gwneud peth cynnydd, nad oedd yr un o'n cynigion wedi ei gyflawni'n llawn a'i bod yn aneglur pryd y caent eu cwblhau.

49 Cynhaliwyd adolygiad o waith rheoli asedau'r Cyngor yn 2011, a gwnaethom nifer o gynigion ar gyfer gwella. Yn ystod 2012 nodwyd bod y Cyngor yn sefydlu sylfaen gadarn i adeiladu arni ac i lywio strategaethau rheoli asedau yn y dyfodol, er ei fod yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae wedi cyflawni hyn drwy werthuso ei bortffolio asedau presennol a'r modd y gall yr asedau gyfrannu at y gwaith o ddarparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol; monitro cyflwr yr asedau; ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer rhannu asedau gyda phartneriaid; ac

adolygu ei ddulliau o gasglu gwybodaeth a data ynghylch asedau. Adroddodd hefyd ei fod yn datblygu dull cydgysylltiedig drwy fwrdd gwasanaethau lleol er mwyn rheoli asedau, sy’n gam cadarnhaol o ran cydweithredu mewn gwasanaethau cyhoeddus.

# Mae trefniadau gwerthuso ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn gwella, ond nid ydynt eto yn rhoi esboniad cyflawn a hygyrch o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso'i berfformiad yn gwella, ond mae ansawdd y canlyniadau adrodd yn anghyson

50 Mae tystiolaeth gadarn gan wasanaethau ac adrannau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n weithredol a'i reoli ar lefel uwch swyddogion. Adroddir ar berfformiad i'r pwyllgorau craffu bob pedwar i chwe mis, a chyflwynir gwybodaeth i'r aelodau sy'n cynnwys nid yn unig ystadegau perfformiad, ond hefyd disgrifiadau cryno defnyddiol. Er mwyn hunanasesu effeithiolrwydd ei bwyllgorau craffu a throsolwg ei hun, mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol mewn prosiect arsylwi ar gymheiriaid yn rhanbarth De Cymru. Mae'r aelodau craffu'n arsylwi aelodau awdurdodau cyfagos ac, yn eu tro, bydd aelodau awdurdodau cyfagos yn arsylwi ar y Cyngor er mwyn rhannu syniadau ynghylch sut i wella ansawdd ac effaith craffu.

51 Mae System Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad y Cyngor hefyd ar gael ar-lein, ac mae'n rhoi gwybodaeth ynghylch perfformiad a chynnydd presennol, yn ogystal â bod yn ffynhonnell ar gyfer yr adroddiadau ystadegol sy'n cael eu defnyddio ar bob lefel yn y Cyngor.

52 Roedd y broses o werthuso perfformiad yn cynnwys cyfres o hunanasesiadau, gan arwain at gyhoeddi cynllun gwella a oedd yn adrodd ar berfformiad ar gyfer 2011-12. Canfuwyd bod y Cyngor yn gwella ei brosesau hunanasesu ond bod anghysondebau rhwng gwasanaethau o ran pa mor dda y maent yn adrodd ar wybodaeth am berfformiad.

53 Yn ei *Gynllun Gwella 2012/13,* canolbwyntiodd y Cyngor ar saith thema allweddol, pob un ohonynt yn cynnwys disgrifiadau o sawl nod a gweithgaredd, ynghyd â dangosyddion perfformiad, nad oedd nifer ohonynt yn cyd-fynd yn uniongyrchol â disgrifiadau'r camau gweithredu. O ganlyniad, nid yw'r Cynllun yn rhoi darlun cyson o berfformiad y Cyngor, ac mae ansawdd gwaith y Cyngor o ran gwerthuso'i berfformiad yn amrywio. Mae rhai gwerthusiadau yn dda gydag esboniadau eglur o berfformiad. Er enghraifft, mae'r manylion ar gyfer yr amcan gwella 'darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu' yn dangos yn eglur nifer o ddangosyddion perfformiad sy'n berthnasol i'r amcan. Mae'r disgrifiad yn rhoi esboniad rhesymol o'r gweithgareddau er mwyn cyflawni'r amcan gwella. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithredu strategaeth ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned; cyflwyno hyfforddwyr dysgu; darparu pecynnau data gwell i bob ysgol; a gweithredu rhaglen datblygu arweiniad benodedig ar gyfer staff a llywodraethwyr. Y casgliad yn y disgrifiad oedd bod yr amcan gwella, o ganlyniad, wedi ei gyflawni.

54 Nid oedd gwerthusiadau eraill o berfformiad yn rhoi darlun mor eglur o berfformiad. Er enghraifft, nid yw gwerthusiad yr amcan gwella ar gyfer 'gwella'r cyfleoedd i fanteisio ar weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol' yn rhoi asesiad cadarn o ansawdd y perfformiad. Mae'r unig ddangosydd perfformiad a ddefnyddiwyd yn ymwneud â chanran y plant sy'n aelodau o'r llyfrgell; nid oedd mesurau eraill ar waith i asesu sut y cyflawnwyd unrhyw elfennau

eraill yn yr amcan perfformiad. Nid oedd y gwerthusiad yn rhoi unrhyw wybodaeth yn datgan a oedd yr amcan gwella wedi ei gyflawni.

55 Roedd yr hunanasesiad o berfformiad eleni yn dibynnu'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad a chymariaethau â chyfartaleddau Cymru gyfan, a defnyddiwyd yr ail fel meincnodau ar gyfer llwyddiant. Roedd rhai gwasanaethau yn ychwanegu at y 'meincnodi' hwn drwy gymharu eu perfformiad â chyrff sector cyhoeddus cymaradwy, adolygiadau gan gymheiriaid ac adborth gan randdeiliaid. Fodd bynnag, ni roddir y wybodaeth ychwanegol hon, sy'n fwy ansoddol, gan bob gwasanaeth, ac nid oedd digon o gyhoeddusrwydd iddi yn y Cynllun. Drwy ddefnyddio mwy o fesurau ansoddol sy'n helpu i nodi canlyniadau mwy gweladwy ar gyfer y dinesydd neu'r defnyddiwr gwasanaeth yn ogystal â thargedau rhifol, bydd y Cyngor yn gallu cyflwyno ystod fwy cytbwys o fesurau i helpu aelodau a'r cyhoedd i asesu perfformiad y Cyngor a pha wahaniaeth a wnaethpwyd o ganlyniad.

56 Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cytuno bod prosesu hunanwerthuso'r Cyngor yn gwella. Mae'n datgan bod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfrif teg a chyson o waith a pherfformiad y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, ac o'r heriau ariannol difrifol y mae'n eu hwynebu. 'Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd y nodwyd bod angen eu datblygu ac mae'n parhau i fynd i'r afael â'r rhain yn ei gynlluniau busnes a datblygu.' Caiff barn Estyn ar broses hunanwerthuso'r Cyngor ei hadrodd yn y llythyr asesu gwelliant, yn dilyn cyhoeddi adroddiad arolygu Estyn.

57 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar ddatganiadau ariannol y Cyngor. Rhoddwyd barn ddiamod ar 28 Medi 2012 yn mynegi bod yr archwilydd yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. (I weld copi o Lythyr *Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig*, gweler Atodiad 3.)

## Mae gwaith adrodd ar berfformiad y Cyngor yn hygyrch i'r cyhoedd, ac yn bodloni gofynion y *Cynllun Iaith Gymraeg*

58 Dosbarthwyd copïau o Gynllun y Cyngor i adeiladau a llyfrgelloedd y Cyngor, ac roedd fersiwn print bras ar gael ar gais. Mae'r Cynllun ar gael ar y rhyngrwyd i'w wneud yn fwy hygyrch i ddinasyddion a rhanddeiliaid, ond gallai'r Cyngor wneud mwy i'w hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd iddo ar yr hafan.

59 Caiff crynodeb o'r Cynllun ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan fodloni gofynion *Cynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor. Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn ei gynllun iaith ac i baratoi adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith.

60 Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod staff dwyieithog yng nghanolfan gyswllt y Cyngor, sydd yn galluogi'r Cyngor i ddelio gyda phob ymholiad ffôn yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl y dewis iaith. Cynhaliwyd arolwg ar sgiliau ieithyddol staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd dadansoddi'r canlyniadau yn caniatáu'r Cyngor i gynllunio'n fwy penodol wrth lunio rhaglenni hyfforddiant at y dyfodol. Bydd y Cyngor hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau fod polisïau a strategaethau corfforaethol, megis ei strategaeth adnoddau dynol, yn cydweddu gyda Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor, nawr fod y strategaeth yma mewn lle ac yn weithredol.

# Mae gwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau yn gadarn

## Mae'r Cyngor yn datblygu dull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn cefnogi'r gwelliannau y mae'n bwriadu eu gwneud

61 Penderfynodd y Cyngor na fyddai'n newid amcanion y cynllun corfforaethol ar gyfer 2012-13 er mwyn rhoi digon o amser i'r weinyddiaeth newydd adolygu a, lle bo angen, addasu amcanion gwella presennol y Cyngor. Am y rheswm hwnnw, cynhaliodd y weinyddiaeth newydd adolygiad llawn o *Gynllun Corfforaethol 2010-14*. Yna, ar 18 Ebrill 2012, cytunodd y Cyngor ar set newydd o wyth amcan gwella ar gyfer 2012-13, ac adroddir ar gynnydd ym mis Hydref 2013.

62 Cytunodd y Cyngor hefyd y byddai'n ymdrechu i roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau yn yr wyth amcan gwella hyn ar gyfer 2012-13. Ymateb oedd hynny i'r cynnig ar gyfer gwella yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, sef 'parhau â'r gwaith o ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau' drwy gefnu ar drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad ac ar gwblhau camau gweithredu, neu fethu â gwneud hynny. Drwy hynny byddent yn sicrhau:

- y caiff y bwriadau eu mynegi mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir mesur cynnydd; a
- bod trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn rhoi gwerthusiad rheolaidd o berfformiad i aelodau yng nghyd-destun yr amcan y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

63 Mae'r Cyngor hefyd yn dechrau cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad newydd drwy ddatblygu model newydd ar gyfer cynlluniau gwasanaeth. Cafodd y mathau newydd hyn o gynlluniau gwasanaeth eu treialu i ddechrau mewn tri maes gwasanaeth. Cwblhaodd y Cyngor y tri maes peilot er mwyn datblygu ac adrodd ar ganlyniadau; roeddent yn cynnwys Gwasanaethau Gweladwy, Cysylltiadau Cwsmeriaid a Diogelu'r Cyhoedd. Ym mhob un o'r meysydd hyn, cynhyrchwyd cynllun gwasanaeth gyda dull a oedd yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd pob cynllun gwasanaeth yn crynhoi gweithgarwch y maes gwasanaeth ac yn cynnwys hunanasesiad o berfformiad. Roedd atodiad i bob cynllun yn rhoi amcanion eglur ar ffurf 'cynllun gweithredu' fel y byddai modd ymgorffori'r rhain yn uniongyrchol i gynlluniau tîm, gan sicrhau bod y cynlluniau gwasanaeth yn cael eu sefydlu yn y gwaith bob dydd o ddarparu gwasanaethau.

64 Casgliad ein hasesiad o'r tri maes peilot, ynghyd ag arsylwi'r gweithdy cynllunio busnes, oedd bod ein cynigion ar gyfer gwella yn cael eu gweithredu.

65 Mae'r Cyngor yn y broses o weithredu'r model newydd ym mhob un o'i wasanaethau. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i'r rhain ymsefydlu yn effeithiol ac i fod yn sylfaen gadarn ar gyfer hunanwerthuso effeithiol.

66 Cyflwynodd y Cyngor y trefniadau hyn drwy ei holl wasanaethau yn 2012-13; fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i'r rhain ymsefydlu ac ategu prosesau hunanwerthuso'r Cyngor. Rydym yn hyderus y bydd y trefniadau newydd hyn wedi eu sefydlu'n llawn erbyn 2014.

## Mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol eglur a chadarn

67 Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r Cyngor yn rhagfynegi gorwariant o £500,000 a gaiff ei ariannu o Falans Cronfa Gyffredinol y Cyngor

68 Mae cynlluniau ariannol tymor canol a thymor hwy y Cyngor yn eglur. Mae'r Cyngor hefyd yn dechrau sicrhau bod datblygiad y Cynllun yn gydnaws â'r broses cynllunio cyllidebau, er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng cynllunio ariannol a gwasanaeth, ac er mwyn cryfhau cysylltiadau ag amcanion strategol ac amcanion gwella. Ar hyn o bryd, mae'n anodd asesu sut y bydd yr arbedion rhagamcanol yn cael eu cyflawni tra bod y Cyngor yn ymdrechu i wella'i feysydd blaenoriaeth. Byddai posibilrwydd hefyd o ddefnyddio cyllideb 'ar sail sero' yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliannau a rhagor o arbedion.

69 Er bod cynllun ariannol y Cyngor yn seiliedig ar ystod o wybodaeth gadarn a phriodol, gellid ymestyn hyn ymhellach a sicrhau ei fod ar gael yn fwy eang i'r rhai sy'n gyfrifol am herio a chraffu ar y cynlluniau. Mae cynllun cyffredinol y Cyngor yn cael ei gyflawni, gyda gwelliannau amlwg mewn meysydd gwasanaeth sy'n flaenoriaeth ac yn gyffredinol mae'n cadw o fewn y gyllideb. Mae'r Cyngor yn monitro elfennau o'i gynlluniau yn rheolaidd, ond nid yw'n monitro arbedion effeithlonrwydd yn benodol, ac mae'r cysylltiadau gwan rhwng cynlluniau yn golygu bod y prosesau monitro yn llai effeithiol.

70 Mae gan y Cyngor hanes o ymwneud da â'r cyhoedd, ac mae wedi ymgynghori'n eang mewn perthynas â'r gyllideb a'i flaenoriaethau. Mae aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol i gyd wedi cael cyfle i gyfrannu a gwneud sylwadau.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am ardal Bro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £274.7 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £3,013.00 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £24.4 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,122.81 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.24 y cant i £1,148.53 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 55.9 y cant o dai Bro Morgannwg yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 47 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 21 Llafur
- 11 Ceidwadwyr
- 7 Plaid Cymru
- 4 Annibynnol Llanilltud yn Gyntaf
- 3 Annibynnol
- 1 Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

Sian Davies yw rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor. Caiff ei chefnogi gan:

- Gwasanaethau Datblygu: Rob Thomas
- Gwasanaethau Gweladwy a Thai: Miles Punter
- Gwasanaethau Cymdeithasol: Phil Evans

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Fro Morgannwg yw:

- Vaughan Gething, De Caerdydd a Phenarth, y Blaid Lafur
- Jane Hutt, Bro Morgannwg, y Blaid Lafur
- David Melding, Canol De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Andrew T. Davies, Canol De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Eluned Parrott, Canol De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Leanne Wood, Canol De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Fro Morgannwg yw:

- Alun Cairns, Bro Morgannwg, y Blaid Geidwadol
- Alun Michael, De Caerdydd a Phenarth, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.bromorgannwg.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y cyfeiriad hwn: Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, y Barri, CF63 4RU. Ffôn: 01446 700111.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Sian Davies,
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd y Cyngor
Heol Holton
CF63 4RU

Annwyl Sian Davies

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 28 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun teg a chywir o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y prif faterion a oedd yn codi yn sgil archwilio'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 17 Medi 2012. Roedd y materion mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â:

- Ffigur mantoli o £27m yn y datganiad llif arian – wrth gynnal archwiliad o'r datganiad llif arian, canfuwyd bod y fantolen rhwymedigaethau a oedd yn sail i'r llif arian yn cynnwys mantolen heb ei chynnal o £27m, nad oedd trywydd archwilio ar gael ar ei chyfer. Trafodwyd hyn â'r rheolwyr a chynhaliwyd ymarfer gan y rheolwyr i gysoni'r fantolen. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, cafwyd cysoniad ynghyd â dogfennaeth ategol, a lleihawyd ffigur y fantolen i £379,000.

- Cyfraniadau Pensiwn – yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd y Cyngor wrthi'n cytuno ar setliadau cyflog cyfartal gyda'i gyflogeion. Roedd y cyfrifon yn cynnwys darpariaeth o £8.3m ar gyfer y rhwymedigaeth hon a'r cyfraniadau pensiwn cysylltiedig. Awgrymai'r cyngor cyfreithiol a oedd ar gael i'r Archwilydd Penodedig ei bod yn briodol cydnabod y rhwymedigaeth hon. Fodd bynnag, roedd sawl barn gyfreithiol wahanol ac ansicrwydd ynghylch yr angen i gydnabod darpariaeth ar gyfer elfen y cyfraniadau pensiwn. Daeth yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad nad oedd gofyn iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach ynghylch y mater hwn fel rhan o archwiliad o gyfrifon 2011/12. Fodd bynnag, byddai angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau yn y llys ar y mater hwn yn y dyfodol, a allai roi eglurder ynghylch y sefyllfa gyfreithiol ac a allai effeithio ar yr angen am ddarpariaeth.

- Cronfa yswiriant – Yn 2010/11, cytunwyd gyda'r rheolwyr ar fethodoleg cyfrifyddu newydd ar gyfer y gronfa. Fe'i cyfrifwyd yn gywir yng nghyfrifon 2011/12; fodd bynnag, nodwyd gwahaniaeth o £674,000 rhwng y gwerth a gyfrifwyd (£350,000) a'r prisiad a ddangoswyd ar gyfer y gronfa yn y cronfeydd a glustnodwyd (£1,024,000). Nid oedd y rheolwyr yn credu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol i'r cyfrifon, ac felly ni newidiwyd mohono. Yn hytrach, adroddwyd arno fel camddatganiad nas cywirwyd.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesul Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwyf yn fodlon bod trefniadau priodol ar waith gan y Cyngor. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle na ddangoswyd hyd yma bod y trefniadau hyn yn effeithiol, neu lle gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi ei gwblhau ar 28 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 yn cyd-fynd â'r ffi y cytunwyd arni sydd wedi ei nodi yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

**John Golding**

**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**

20 Tachwedd 2012

Mae gan etholwyr lleol ac eraill hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel arfer tua mis Gorffennaf neu fis Awst, rhaid iddo hysbysebu'r ffaith eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n berthnasol iddynt am 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r Cyngor drefnu eu bod ar gael. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am gyfrifon y flwyddyn y mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os byddwch o'r farn bod rhywbeth o'i le gyda'r cyfrifon, neu sôn am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon cyngor: eich hawliau,* ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bro Morgannwg

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Gynllun Corfforaethol 2011-14* a'i *Gynllun Gwella 2012/13* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| **Blaenoriaethau corfforaethol 2011-12** | **Amcanion gwella 2012-13** |
|---|---|
| Arweiniad Cymunedol | Gwella ansawdd a safon tai'r sector preifat yn ardal Castleland |
| Plant a Phobl Ifanc | Darparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl yn gyflymach, fel y bo ein perfformiad o leiaf cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol y llynedd (2010-2011). |
| Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | Defnyddio ynni'n fwy effeithiol drwy hybu arferion cynaliadwy yn ein busnes er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor. |
| Diogelwch Cymunedol | Ailgylchu mwy er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013. |
| Adfywio | |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles | Ymestyn y gyfran o stoc dai'r Cyngor sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, erbyn 31 Mawrth 2014. |
| Adnoddau Corfforaethol | Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er mwyn cael perfformio cystal â'r chwartel uchaf yng Nghymru yn ystod 2011/12. |
| | Gwneud y gorau o'r holl adeiladau sydd gennym. |
| | Datblygu dulliau effeithiol a chynaliadwy o gynllunio'r gweithlu ar gyfer y Cyngor. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn yr un ddogfen ac mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk